# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**CYMRAEG**

**IONAWR 2014**

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad IONAWR 2014 TGAU CYMRAEG Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

## TGAU CYMRAEG

## CYNLLUN MARCIO – IONAWR 2014

## HAEN SYLFAENOL

### ADRAN A

**C.1** (i) Un marc am nodi:

- **Dros** bedair mil o filltiroedd [1]

(ii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Gwirfoddoli gyda'r Urdd
- Actio
- Rhedeg
- Cerdded [2]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- 34.5 miliwn
- Kampala [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** 1 marc am bob ffaith hyd at **18 marc**

Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau sy'n medru cael eu clustnodi i fwy nag un adran / neu ddarn darllen.

| | *Darn Darllen 1 Cip* | *Darn Darllen 2 S4/C* |
|---|---|---|
| **Ffeithiau am y gyfres Newid Byd**<br><br>**C** | • Rhaglen ar S4C<br>• 5.30 Nos Lun<br>• Cael cyfle i helpu pobl sy'n llai ffodus<br>• Pedwar o bobl ifanc (O Gymru) yn cymryd rhan<br>• Teithio i Mbale/Uganda<br>• Dilyn y pedwar wrth iddynt adeiladu sied geifr, plannu coed a llawer mwy<br>• Enwau'r pedwar/oed/cartref | • Ail gyfres<br>• Dangos ar Stwnsh<br>• Teithio o Kampala i Mbale a Kumi<br>• Gweithio gyda sawl elusen |
| **Profiadau'r pedwar**<br><br>**p** | • Helpu yn Slymiau Namatala<br>• Gweld nifer o blant a theuluoedd tlawd iawn<br>• Teithio i Kumi<br>• Adeiladu sied geifr<br>• Mynyddoedd/Konokoyi<br>• Elusen Maint Cymru - Helpu ffermwr Masnach Deg a phlannu coed newydd<br>• Cynllunio a pheintio llyfrgell/creu llyfrgell newydd liwgar<br>• Elusen Pont - ymweld ag ysgol gynradd leol<br>• Gweld prinder adnoddau dysgu a darllen<br>• Helpu elusennau – enwi un neu fwy | • Cynnal gemau Olympaidd i blant yr ysgol (I)<br>• Cyflwyno llu o ffeithiau am wledydd amrywiol (I)<br>• Cael y plant i greu baneri a phosteri (1)<br>• Seremoni ar ddiwedd y gemau/medal i'r enillwyr (I)<br>• Adeiladu sied geifr (R)<br>• Llifio, hoelio, peintio a mesur yn berffaith (R)<br>• Adeiladu sied fyddai'n esiampl i gymunedau eraill (R)<br>• Treulio amser gyda ffermwr o'r enw James Kilobi (ym mynyddoedd Konokoyi) (L)<br>• Dysgu am y broses o gasglu coffi (L)<br>• Gweld sut mae bod yn rhan o Fasnach Deg yn rhoi cyfle gwell i'r gweithwyr (L)<br>• Dysgu am addysg yn Uganda – gwerthfawr/codi ffioedd/pobl dlawd yn methu fforddio/disgyblion yn darparu pethau sylfaenol (un marc yr un hyd at ddau)<br>• Creu llyfrgell yn ysgol Bukhumwa (C)<br>• Dod â'u hoff lyfrau o'u plentyndod i'w rhoi ar y siffoedd (C)<br>• Dysgu sgiliau newydd a gweithio fel grŵp (R) |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| **Teimladau'r pedwar**<br><br><br>**t** | | • Cyfleu mwynhad yn gyffredinol e.e. gwerthfawr/bythgofiadwy<br>• (Iestyn) - profiad o weithio yn y slym yn fythgofiadwy<br>• (Iestyn) - diolchgar i'r ysgol am y croeso arbennig<br>• (Rachel) – adeiladu sied yn waith caled yn y gwres<br>• (Rachel) - profiad da iawn wrth ddysgu sgiliau newydd/gweithio fel grŵp<br>• (Rachel) - braf gweld y plant yn chwerthin wrth weld aelodau'r grŵp yn rhedeg oddi wrth y geifr!<br>• (Luis) - cyffrous i weld y gwahanol brosesau o gynhyrchu coffi (heb gael ei siomi)<br>• (Ceri) - trist fod plant yn methu fforddio addysg yn Uganda<br>• Pawb yn drist emosiynol wrth adael yr ysgol<br>• (Ceri) - mwynhau treulio amser gyda phlant/pawb yn gyfeillgar<br>• Stori Mark wedi creu argraff ar Iestyn<br>• (Rachel) – syrthio mewn cariad â phlant y slym<br>• (Luis) – mwynhau, roedd hi'n werth yr holl deithio<br>• (Ceri) Gwaith elusen Child of Hope yn anhygoel<br>• (Iestyn) Agoriad llygad/synnu pa mor ddiolchgar ydy pawb<br>• (Iestyn) Edrych mlaen cyn cychwyn y prosiectau bod y pethau symlaf yn gwneud y plant yn hapus<br>• (Rachel) Synnu wrth weld bod y pethau symlaf yn gwneud y plant yn hapus |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf adroddiad.(trydydd person / ffeithiol)

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 20 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol hyd at **12**.

| **Darn Darllen 1 – Cip** | **Darn Darllen 2 – S4/C** |
|---|---|
| (3x2 = 6)<br>**bwriad yr awdur**<br>• Rhannu gwybodaeth/cyflwyno ffeithiau/hysbysebu'r rhaglen/sôn am y presennol (paragraff cyntaf) a'r gorffennol (ail baragraff)<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• Cynulleidfa'r cylchgrawn a'r rhaglen/pobl ifanc/unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth am Uganda<br><br>**Y math o iaith**<br>• Iaith safonol (prosiect cyntaf y pedwar mentrus)<br><br>**Nodweddion arddull**<br>• Ffurf: erthygl/tudalen o gylchgrawn (cylchgrawn Cip/lliwgar a deniadol i bobl ifanc)<br>• Idiom (wrth ei bodd – Ceri)<br>• Defnyddio ffigurau – 4,000/34.5 miliwn/54 oed<br>• Trydydd person (roedd criw yn teithio)<br>• Berfau trydydd person (roedd/aeth/ gwelodd)<br>• Ansoddeiriau (lwcus/mentrus/tlawd)<br>• Cyfarch y gynulleidfa/cwestiynau rhethregol (wyt ti eisiau helpu pobl llai ffodus na thi?)<br>• Rhestru (gwirfoddoli, actio, rhedeg a cherdded)<br>• Pwyntiau bwled (yn y blwch gwybodaeth ar waelod y dudalen)<br>• Ailadrodd (Wyt ti eisiau?)<br>• Cwestiynau<br><br>**Y Cyflwyniad**<br>• Dau Logo (Cip a Newid Byd)<br>• Teitl y cylchgrawn a'r rhaglen deledu<br>• Penawdau (prosiectau'r pedwar)<br>• Defnydd o brint trwm (Child of Hope/Dolen ffermio/ti)<br>• Defnydd o liw cefndir (blychau glas a gwyrdd tabl glas)<br>• Llun (llun o'r tîm)<br>• Map (o Uganda)<br>• Tabl (yn cynnwys ffeithiau am y pedwar) | (3x2 = 6)<br>**bwriad yr awdur**<br>• Cyflwyno gwybodaeth/ffeithiau/denu gwylwyr (blogiau cyfoes/pobl ifanc yn rhoi gwybodaeth)/sôn am y gorffennol a'r presennol (cyflwyniad yn y presennol/blogiau yn y gorffennol)<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• Pobl ifanc/cynulleidfa Stwnsh<br><br>**Y math o iaith**<br>• Iaith safonol/mwy llafar (yn y blogiau)/ diweddariadau (yno maen nhw'n gweithio… / Fe fuon ni…)<br><br>**Nodweddion arddull**<br>• Ffurf: tudalen gwefan/gwybodaeth o'r we/blogiau<br>• Berfau anffurfiol yn y blogiau (fe fuon ni/fe benderfynon ni…)<br>• Berfau amhersonol (cafwyd, rhoddwyd)<br>• Ansoddeiriau (bythgofiadwy/diddorol/anodd)<br>• Rhestru (Llifio, hoelio, peintio a mesur)<br>• Ebychiadau (Profiad…bythgofiadwy!/chefais i ddim fy siomi!)<br>• Idiomau (yn wên o glust i glust/newid byd/bwrw hen wragedd a geifr)<br>• Berfau person cyntaf (unigol a lluosog)/trydydd person (Fe wnes i/penderfynon ni/maen nhw<br>• Hiwmor – (hen wragedd a geifr)<br>• Dyfyniad (geiriau'r bobl yn y blogiau)<br>• Enwi (pobl, elusennau, llefydd)<br><br>**Y Cyflwyniad**<br>• 3 Logo (S4/C / Stwnsh / Newid Byd)<br>• Isbenawdau (blogiau'r tîm/y diweddaraf<br>• Dolenni<br>• Cefndir lliw i'r blychau<br>• Print trwm (isbenawdau)<br>• Lliw'r print (enwau'r gwirfoddolwyr/teitlau)<br>• Cyfeiriad gwefan<br>• Lluniau (cyflwynwyr Stwnsh/y pedwar)<br>• Sôn am y gorffennol a'r presennol<br>• Bocsiau/blychau<br>• Print Italig (elusennau) |

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall). **Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd).**
**3 marc –** mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 farc** - mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc -** mynegi barn a chyd-drafod yn fras **Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 15 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**

**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 9-10 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 7-8 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau’n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 6 |
| • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | 4-5 |
| • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | 2-3 |
| • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + iaith a Mynegiant: 10)**

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

**C.4** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys a Iaith a Mynegiant
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL/ PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • trafod y testun gyda pheth manylder gan berswadio'n gyson<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• cyflwyno tystiolaeth / profiadau<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 28-35 | 14-17 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • trafod y testun gan berswadio'n weddol gyson<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• cyflwyno peth tystiolaeth / rhai profiadau<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'n eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 22-27 | 11-13 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn<br>• • ymdrech i gyflwyno manylion | • trafod y testun gan berswadio ar adegau<br>• cyflwyno ychydig o dystiolaeth / ambell brofiad<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur<br>• cyflwyno gwybodaeth syml yn eithaf eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf<br>• Defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol |
| 14-21 | 7-10 | • ymgais at drefn a dilyniant | • ymgais at berswadio<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • cyflwyno peth gwybodaeth yn syml<br>• peth ymgais i gyflwyno manylion yn eglur<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • cynnwys yn denau iawn | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**C.5. Defnyddio iaith**

Rhoddir **1 marc** am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.
Un gwall wedi ei gywiro
**eidal>Eidal**

> Yr eidal amdani!
>
> Mae Mr Jones yn drefnu taith ir Eidal.
>
> Croeso i unrhiw un o ddisgyblau blynyddoedd 7-9.
>
> Bydd chi'n gadael y ysgol ar ddydd Sadwrn, Hydref 10fed.
>
> Mae'r daith yn costio £590 a bydd angen i gyd o'r arian erbyn Gorffenaf y 5ed.
>
> Dewch i dysgu mwy am y wlad brydferth hwn.

| | | |
|---|---|---|
| drefnu | > | trefnu |
| ir | > | i'r |
| unrhiw | > | unrhyw |
| ddisgyblau | > | ddisgyblion |
| bydd chi | > | byddwch chi |
| y ysgol | > | yr ysgol |
| I gyd o'r arian | > | yr arian i gyd/yr holl arian/y cyfan o'r arian |
| Gorffenaf | > | Gorffennaf (rhaid i sillafiad y gair cyfan fod yn gywir a rhaid rhoi prif lythyren) |
| i dysgu | > | i ddysgu |
| Hwn | > | hon |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10 marc**

**Marciau'r papur cyfan = 100 (Adran A:50 + Adran B:40 + Adran C: 10)**

© WJEC CBAC Cyf.

## TGAU CYMRAEG

## CYNLLUN MARCIO – IONAWR 2014

## HAEN UWCH

### ADRAN A

**C.1** (i) Un marc am nodi:

- Kampala (dim amrywiad yn y sillafu) [1]

(iv) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- PONT
- Child of Hope
- Maint Cymru
- Masnach Deg
- Dolen ffermio [2]

(v) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Canŵio
- Dringo
- Beicio mynydd [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**

**C.2** 1 marc am bob ffaith hyd at **13 marc**

Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau sy'n medru cael eu clustnodi i fwy nag un adran.

| | **Darn Darllen 1 – S4/C** | **Darn Darllen 2 – Gwirfoddoli Cymru** |
|---|---|---|
| **Rhesymau unigolion dros wirfoddoli**<br><br>**rh** | • Helpu pobl sy'n llai ffodus/sâl<br>• Helpu elusennau - enwi un neu fwy<br>• Cael profiadau bythgofiadwy/profiad sy'n rhoi mwynhad<br>• Teithio i wlad arall<br>• Rhoi budd i gymunedau<br>• Addysgu pobl<br>• Dysgu sgiliau newydd<br>• Gwneud pobl eraill yn hapus<br>• Gwella bywydau pobl<br>• (Agoriad llygad) gweld pa mor ddiolchgar ydy pawb / gwerthfawrogi<br>• Rhoi'r un cyfle i bobl | • Gwneud rhywbeth heb elw ariannol<br>• Gwneud rhywbeth er budd eraill neu i gefnogi eraill yn y gymuned<br>• Rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned leol/eisiau cwrdd â ffrindiau/trosglwyddo sgiliau i bobl eraill – un marc am hyd at ddwy ffaith<br>• Magu hyder/hunan-barch/cwrdd â phobl debyg/profiadau newydd/helpu pobl eraill/cael llawer o hwyl – un marc am hyd at ddwy ffaith (dim gwobrwyo mwy na dwy ffaith)<br>• Rhywbeth gwerthfawr i'w wneud - methu cynnal sawl digwyddiad heb wirfoddolwyr<br>• Cael effaith **gadarnhaol** ar fywydau pobl a'r gymuned/effaith fawr (rhaid egluro sut mae'n gadarnhaol)<br>• Gwneud eich bywyd eich hun yn fwy boddhaus a gwerth chweil<br>• Rhywbeth addas i bawb – (bob oedran, diddordeb a chefndir) |

| | | |
|---|---|---|
| **Profiadau rhai gwirfoddolwyr**<br><br>**p** | • Cael cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen S4C<br>• 4 wedi mynd i Uganda / enwi'r pedwar<br>• Profiad bythgofiadwy (I)<br>• Cynnal Gemau Olympaidd (I)<br>• Dysgu am wledydd/creu posteri/gwobrwyo enillwyr (I)<br>• Profiad mewn ysgol yn slymiau Namatala (I+R)<br>• Adeiladu sied geifr (R)<br>• Gwaith corfforol – llifio, hoelio, peintio a mesur (R)<br>• Sied yn esiampl i gymunedau eraill (R)<br>• Gweithio fel grŵp (R)<br>• Gweld plant yn chwerthin wrth i wirfoddolwyr redeg oddi wrth yr anifeiliaid (R)<br>• Gweld bod pethau syml yn gwneud plant yn hapus (R)<br>• Syrthio mewn cariad â phlant bach<br>• Treulio amser ym mynyddoedd Konokoyi gyda ffermwr lleol/helpu ffermwr/James Kilobi (L)<br>• Dysgu am y broses o gynhyrchu coffi (L)<br>• Creu llyfrgell liwgar yn ysgol gynradd Bukhumwa (C)<br>• Addurno, tacluso a gosod llyfrau'r pedwar ar y silffoedd (C)<br>• Profi tywydd eithafol chwilboeth/bwrw hen wragedd a geifr! (A)<br>• Gweld bod pethau syml yn gwneud plant yn hapus<br>• Helpu elusennau – enwi un neu fwy | • Helen Williams - Geidiaid Clydach/Arweinydd Cynorthwyol<br>• Cychwyn gyda'r Geidiaid a'r gwasanaeth cymorth - helpu Brownies lleol<br>• Rhesymau - helpu pobl eraill i gael yr un profiadau â hi/cwrdd â phobl/gwneud ffrindiau/gweithgareddau amrywiol<br>• Da gweld merched yn chwerthin, gwneud ffrindiau newydd a magu hunan-hyder<br>• Y mwyaf o waith gwirfoddol rydych chi'n ei wneud, y mwyaf o foddhad a gewch chi<br>• Cyfle gwych i ddatblygu sgiliau/cael syniadau am yrfa<br>• Mwynhau<br>• Argymell i bawb |
| **Effaith gwirfoddoli ar eraill**<br><br>**e** | • Pawb yn mwynhau yn fawr ac yn wên o glust i glust<br>• Dysgu am fridio geifr mwy o faint er mwyn cael mwy o incwm<br>• Plant yn chwerthin wrth i'r gwirfoddolwyr redeg oddi wrth y geifr (gwneud pobl yn hapus)<br>• Gwaith Masnach Deg yn galluogi pobl fel James i gael bywyd gwell - addysg/bwyd/dillad/ meddyginiaeth/pris teg am y cynnyrch<br>• Pobl dlawd yn gallu cael addysg<br>• Adeiladu llyfrgell yn plesio plant y slym<br>• Y pethau symlaf yn gwneud y plant yn hapus | • Pobl yn methu mwynhau rygbi, Gemau Olympaidd na digwyddiadau chwaraeon eraill heb wirfoddolwyr<br>• Pobl yn methu mwynhau cyngherddau, gwyliau cerddorol nac eisteddfodau heb wirfoddolwyr<br>• Achub bywydau - pobl yn marw heb y Samariaid, y Bad Achub, timau achub mynydd a'r Groes Goch Brydeinig<br>• Ni fyddai gwasanaethau fel radio ysbyty/caffi/siop<br>• Byddai llawer o dirwedd, bywyd gwyllt ac ardaloedd o harddwch naturiol yn dioddef o esgeulustod<br>• Llawer o bobl anabl a phobl mewn oed yn unig |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf erthygl.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 15 marc**

**C.3** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol.

| **Darn Darllen 1 – S4/C** | **Darn Darllen 2 – Gwirfoddoli Cymru** |
|---|---|
| (4x2 =8)<br>**bwriad yr awdur**<br>• Cyflwyno gwybodaeth/ffeithiau/ denu gwylwyr (blogiau cyfoes/ pobl ifanc yn rhoi gwybodaeth) /sôn am y gorffennol a'r presennol (cyflwyniad yn y presennol/blogiau yn y gorffennol)<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• Pobl ifanc/cynulleidfa Stwnsh<br><br>**y math o iaith**<br>• Iaith safonol/mwy llafar (yn y blogiau/ diweddariadau) (yno maen nhw'n gweithio…/Fe fuon ni…)<br><br>**nodweddion arddull**<br>• Ffurf tudalen gwefan/gwybodaeth o'r we/blogiau<br>• Berfau anffurfiol yn y blogiau (fe fuon ni/fe benderfynon ni…)<br>• Berfau amhersonol (cafwyd, rhoddwyd)<br>• Ansoddeiriau (bythgofiadwy/diddorol/anodd)<br>• Cwestiwn (Eisiau helpu?)<br>• Rhestru (Llifio, hoelio, peintio a mesur)<br>• Ebychiadau (Profiad…bythgofiadwy!/ chefais i ddim fy siomi!)<br>• Idiomau (yn wên o glust i glust/newid byd/hen wragedd a geifr))<br>• Berfau person cyntaf (unigol a lluosog)/trydydd person (Fe wnes i/penderfynon ni/maen nhw<br>• Dyfyniad – (geiriau pobl yn y blogiau)<br>• Hiwmor (hen wragedd a geifr)<br>• Enwi (pobl, elusennau, llefydd)<br><br>**y cyflwyniad**<br>• 3 Logo (S4/C / Stwnsh / Newid Byd)<br>• Isbenawdau (blogiau'r tîm/ y diweddaraf<br>• Dolenni<br>• Cefndir lliw i'r blychau<br>• Lliw'r print (enwau'r gwirfoddolwyr / teitlau)<br>• Print trwm (isbenawdau)<br>• Print italig (elusennau)<br>• Cyfeiriad gwefan<br>• Lluniau (cyflwynwyr Stwnsh/y pedwar)<br>• Sôn am y gorffennol a'r presennol | (4x2 = 8)<br>**bwriad yr awdur**<br>• Cyflwyno ffeithiau/ffeithiau/denu gwirfoddolwyr (gwybodaeth am sefydliadau a gweithgareddau posibl/cyfarch pobl sydd â diddordeb)<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• Pobl sydd eisiau gwybodaeth am y pwnc<br>• Unrhyw oedran<br><br>**y math o iaith**<br>• Iaith safonol/ffurfiol /cryno/uniongyrchol/ perswadiol (dyma fyddai'n digwydd heb wirfoddolwyr)<br><br>**nodweddion arddull**<br>• Ffurf: taflen wybodaeth<br>• Berfau amhersonol (gellir/defnyddir)<br>• Berf orchmynnol (cofrestrwch)<br>• Cwestiynau (Beth yw gwirfoddoli?)<br>• Cyfarch y darllenydd (efallai fod arnoch eisiau…)<br>• Ebychiad (Cael llawer o hwyl!)<br>• Rhestru (Gwasanaeth cymunedol, hunangymorth, elusen, cymodgaeth dda…)<br>• Dyfynnu geiriau (geiriau Helen Evans)<br>• Cyferbyniad – pwyntiau bwled cadarnhaol/negyddol<br>• Enwi (mudiadau, person)<br><br>**y cyflwyniad**<br>• Pwyntiau bwled (y ddau flwch ar y chwith)<br>• Logo (Gwirfoddoli Cymru)<br>• Isbenawdau<br>• Cefndir lliw i'r blychau<br>• Lliw'r print (penawdau)<br>• Blychau gwybodaeth<br>• Print trwm (isbenawdau)<br>• Print italig (elusennau)<br>• Cyfeiriad gwefan<br>• Lluniau (gwirfoddolwyr) |

Dyfernir **4 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd
(e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a chyd-drafod)** (hyd at **4 marc** ar draws y ddau ddarn).
**4 marc –** mynegi barn a chyd-drafod yn aeddfed
**3 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 farc** - mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc** - mynegi barn a chyd-drafod yn fras

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf | 9-10 |
| • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf | 7-8 |
| • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf | 6 |
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 4-5 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 2-3 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant:10)**

**ADRAN B**

**C.4** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys a Iaith a Mynegiant
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol:***

| **Cyfanswm Marciau** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL/ PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • cyfanwaith creadigol aeddfed a threiddgar<br>• arddull afaelgar<br>• adeiladwaith sicr | • trafod y testun yn dreiddgar gan fynegi barn aeddfed<br>• ehangu a datblygu pwyntiau<br>• cyflwyno tystiolaeth briodol / profiadau yn gryno a chrefftus<br>• cyfanwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol iawn ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith â dyfnder iddo<br>• arddull aeddfed<br>• adeiladwaith sicr | • trafod y testun a mynegi barn yn hyderus a phwrpasol<br>• dangos y gallu i ehangu a datblygu pwyntiau<br>• cyflwyno tystiolaeth briodol / profiadau yn effeithiol a chryno<br>• gwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf |
| 22-27 | 11 -13 | • gwaith ag apêl iddo<br>• arddull ddifyr<br>• gwaith trefnus | • trafod y testun yn fanwl gan fynegi barn yn bendant<br>• dangos y gallu i ddatblygu pwyntiau<br>• cyflwyno tystiolaeth / profiadau yn gyson<br>• gwaith trefnus<br>• arddull dda ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf |

| **Cyfanswm Marciau** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL/ PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 14-21 | 7-10 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • trafod y testun gyda pheth manylder gan fynegi barn yn gyson<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• cyflwyno tystiolaeth / profiadau<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • trafod y testun gan fynegi barn yn weddol gyson<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• cyflwyno peth tystiolaeth / ambell profiadau<br>• rhoi rhai rhesymau<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'n eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • trafod y testun gan fynegi peth barn<br>• cyflwyno ambell reswm<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**

**ADRAN C**

**C.5 Defnyddio iaith**

Rhoddir **1 marc** am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.

**eidal>Eidal**

Mwynhau'r eidal

Bu hanner cant o ddisgyblion Ysgol Bryn Gwyn ar daith i Rhufain yn ystod mis Hydref. Dyma'r tro cyntaf i fwyafrif y disgyblion ymweld â'r prifddinas. Dysgwyd llawer am y ddinas hardd hwn wrth deithio o un atyniad i'r llall. Yn ffodus, roedd y tywydd ddim yn rhy boeth.

Cafwyd y disgyblion brofiadau cyffroes wrth weld y Colosseum a'r Fatican a llawer o atyniadau poblogaeth eraill. Byddant yn siarad amdan eu profiadau am flynyddoedd. Dywedodd un disgybl mae hon oedd y daith orau iddo fod arni erioed. Mae pob un o'r criw fu ar y daith yn dymuno diolch i'w hathrawon am y gwaith trefnu.

Bydd y daith nesaf yn cael ei threfnu ar gyfer Hydref 10ain y flwyddyn nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| **i Rhufain** | **>** | **i Rufain** |
| **prifddinas** | **>** | **brifddinas** |
| **hwn** | **>** | **hon** |
| **roedd ddim** | **>** | **nid oedd / doedd … ddim** |
| **cafwyd** | **>** | **cafodd** |
| **cyffroes** | **>** | **cyffrous** |
| **amdan** | **>** | **am** |
| **poblogaeth** | **>** | **poblogaidd** |
| **mae** | **>** | **mai / taw** |
| **10ain** | **>** | **10fed / degfed** |

*Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10 marc*

**Marciau'r papur cyfan = 100 (Adran A: 50 + Adran B: 40 + Adran C: 10)**

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk